CYNGOR TREF NEFYN

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 16/09/2025 am 7yh

**Presennol**

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mared Llywelyn Williams (Cad) | Gwynfor Jones | Gruffydd Williams | Arfon Hughes | Gareth Jones |
| Carys Roberts | Rhys Llewelyn | Catrin Roberts (cofnodi) | Gito Williams | Gruffudd Griffiths |

1. **Ymddiheuriadau.**
   Iwan Evans, Lleucu Jones a Pat Humphreys (Clerc).

2. **Datgan buddiant ariannol neu gysylltiad personnol.**
   Dim.

3. **Cofnodion er cywirdeb yn unig**
   Cofnodion Pwyllgor Hybrid 08/07/2025
   Penderfyniad: derbyn yn gywir.
   Cynnig: Gareth Jones   Eilio: Gwynfor Jones

   **Materion yn codi o'r cofnodion:**
   1. Cafwyd diweddariad ar eitem ymweliad aelodau Cyngor Tref Nefyn gyda safle trin carffosiaeth Morfa Nefyn. Ymwelodd 4 o aelodau CTN gyda'r safle bythefnos yn ôl a chael cyfarfod gyda 5 o weithwyr y Bwrdd Dŵr, a oedd yn fodlon iawn i ateb cwestiynnau ac i drafod pryderon sydd wedi codi yn ddiweddar ynglyn â charffosiaeth yn gorlifio. Mae system beirianyddol hynod effeithiol ar waith yn y safle, a chafwyd eglurhad manwl o'r broses o drin carffosiaeth yno. Roedd y gweithiwyr yn unfrydol bendant nad yw'r honiadau fod carffosiaeth yn gorlifo ac yn llygru'r amgylchedd h.y – yr afon a'r môr, yn wir o gwbl, ac fod gwybodaeth anghywir yn cael ei rhyddau. Mae y Cyngor Tref am gadw mewn cysylltiad efo'r Bwrdd Dŵr ynglyn â'r mater hwn.
   2. Cafwyd diweddariad ar atgyweirio'r cerrig beddi yn y mynwentydd. Mae y Cyngor Tref wedi cael cynnig arian grant o £6,500 tuag at ddiogelu a harddu'r ardal, ac mae £2,500 ychwanegol wedi ei gynnig at y swm gwreiddiol hefyd. Mae y cyngor yn derbyn y grant, a bydd yr arian yn mynd tuag at ddiogelu ac atgywirio hên feddau ym mynwentydd Nefyn, Edern a hên fynwent Eglwys Santes Fair, Morfa. Nid yw CTN yn gyfrifol am fynwent Eglwys Santes Fair, ond mae'r cyngor yn teimlo y byddai'n fuddiol gwario'r arian er diogelwch yno hefyd. Bydd rhan o'r arian hefyd yn cael ei ddefynddio i brynu mwy o 'Triple Deckers' i ddal blodau yn y tri phentref.

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

# COFNODION Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 16/09/2025 am 7yh

4. **Unrhyw Fater Brys**

1. **Alan Adams –** Clerc

Trafodwyd torri gwellt yn yr ardal. Ers y cyfarfod diwethaf mae gwellt wedi cael ei dorri mewn rhai o’r llecynnau, ond nid ymhob un. Mae aelod o’r Cyngor Tref wedi bod allan yn torri, mae’r ANHE wedi bod allan yn torri a Chyngor Gwynedd mewn rhai mannau hefyd. Mae’r ymgymerwr sydd yn cael ei gyflogi gan y Cyngor Tref wedi bod yn holi am daliad o £675, a thrafodwyd talu y swm hwnnw iddo. Roedd y cyngor wedi gofyn am luniau o’r gwahanol fannau a oedd wedi nodi i’w torri, gan yr ymgymerwr, bydd raid holi a dderbyniwyd rhai. Hefyd trafodwyd holi Unllais am gyngor cyfreithiol gyda’r mater.

Penderfyniad: Talu’r swm o £675 i’r ymgymerwr a cheisio cyngor Unllais, gan roi’r mater ar agenda cyfarfod mis nesaf.

Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gareth Jones

2. **Parc Nefyn –** Gruffudd Griffiths

Mae’r polyn sydd yn dal y gêm ‘Snakes’n ladders’ yng nghae chwarae Nefyn wedi torri, ac mae’r gadair a’r bwrdd crwn, hefyd mewn cyflwr gwael. Bydd angen tynnu a thrwsio’r polyn, a chael gwared ar yr eitemau sydd wedi torri, rhag i rywun gael niwed yno.

Penderfyniad: Cysylltu efo ymgymerwr i wneud y gwaith trwsio.

Cynnig: Mared Llewelyn Eilio: Arfon Hughes

3. **Cof Golofn Nefyn** – Arfon Hughes

Mae un o’r colofnau carreg sydd yn amgylchynu’r prif golofn wedi torri ar ôl cael ei tharo gan gar. Mae’r heddlu yn ymwybodol o’r sefyllfa, a’r cerbyd o dan sylw. Yn y cyfamser, gan fod y golofn garreg yn dal i fod yn sownd i gadwyn, cynnigwyd fod CTN yn diogelu’r safle.

Penderfyniad: Hysbysu cwmni yswyriant Cyngor Tref Nefyn o’r sefyllfa, a gofyn i Gwmni Cerrig ail wneud y gwaith atgyweirio. Yn y cyfamser gofyn i ymgymerwr symud y golofn i le diogel.

Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Catrin Roberts

4. **Gosod polyn BT yn Mynwent Fron** – Gruffydd Williams

Cafodd y mater ei ddatruso cyn y pwyllgor felly ni chafwyd trafodaeth arno.

5. **Gwynedd Oed Gyfeillgar –** cyflwyniad gan Bethan Williams (mae cyfyngiad o hanner awr i’r cyflwyniad a’r drafodaeth)

Cafwyd cyflwyniad gan Bethan a Sian. Mae’r gwasaneth yma yn hybu cefnogaeth a chyfeillgarwch i bobl sydd yn heneiddio yn ein cymunedau. Prif bwrpas y cyflwyniad heno i CTN oedd gweld os y gallai aelodau’r cyngor roi mewnbwn ar ba wasanaethau fyddai’n fyddiol yng nghymunedau Nefyn, Morfa ac Edern. Mae ‘Gwynedd Oed Cyfeillgar’ yn cydweithio gydag 8 maes o fewn cymunedau sef: Tai, Trafnidaieth, Cyfranogiad cymdeithasol, Mannau agored/adeiladau, Parch a chynhwysiad

cymdeithasol, Cyfranogiad dinesig a chyflogaeth, Gwasanaethau iechyd a Chyfathrebu a gwybodaeth.
Yn dilyn y cyflwyniad awgrymwyd ein bod yn cadw mewn cysylltiad, gan y gall syniadau godi yn dilyn y cyflwyniad, penderfynwyd hefyd i rannu rhif cyswllt 'Gwynedd Oed Cyfeillgar' efo gwasanaethau eraill yn yr ardal, a gweld beth ydi'r angen yn y gymuned. Awgrymwyd hefyd fod 'Gwynedd Oed Cyfeillgar' yn rhoi hysbyseb yn y papurau bro lleol er gwybodaeth amdanynt eu hunain a darparu gwybodaeth am wasanaethau fyddai'n fuddiol i bobl hŷn yn yr ardal.

6. **Cytundeb trydan y Llyfrgell –** Clerc
Mae'n amser dewis cytundeb newydd.
Penderfyniad: Dewis y cytundeb tair blynnedd
Cynnig: Arfon Hughes Eilio: Gruffydd Williams

7. **Gwresogyddion Siop Siarad –** Arfon Hughes
Aeth Arfon i Siop Siarad am 5.00y h heddiw i roi'r gwresogyddion ymlaen yn gynt i weld a fyddai gwahaniaeth yn y gwres yn yr ystafell, ac er ei bod yn gynnes yno pan ddechreuodd y cyfarfod, fe diffoddodd un o'r gwresogyddion yn nes ymlaen yn y noson. Nid oedd cyfarwyddiadau efo'r system wresogi hon, sydd yn gwneud y sefyllfa yn fwy cymleth braidd, felly penderfynwyd rhoi y mater ar yr agenda at gyfarfod mis nesa.

8. **Gosod y coed nadolig –** Clerc
Agenda mis nesaf.

9. **Plannu coeden nadolig yn Edern a Morfa –** Gito Williams
Cynigwyd y syniad o blannu coed Nadolig, un ymhob un o'r tri phentref ar gyfer eu goleuo adeg y Nadolig, yn hytrach na'n bod yn prynu coed i'w cludo a'u gosod yn Nefyn, Morfa ac Edern yn mis Tachwedd bob blwyddyn. Awgrymwyd y gallai'r coed dyfu yn fawr iawn dros gyfnod byr, awgrymwyd y dylem edrych i mewn i'r mater erbyn y cyfarfod nesaf.

10. **Cais am Diffib wrth ymyl Bro Gwylwyr –** Carys Roberts
Mae trigolion Bro Gwylwyr yn teimlo nad oes Diffib yn agos i'r ardal hon yn Nefyn, mae y dau wedi eu gosod yn eithaf agos i'w gilydd – un ar safle Ysgol Nefyn a'r llall yn Eglwys Dewi Sant. Mae problemau yn gallu codi gyda'r Diffibs, cafodd un o'r aelodau brofiad o fynd i nôl yr un ar safle'r Eglwys un tro, ond nid oedd wedi cael ei wefrio.
Trafodwyd ymhle yn ardal Bro Gwylwyr y gellid gosod y Diffib?
Penderfyniad**:** Gofyn i'r Amgueddfa Forwrol a fydde nhw'n fodlon derbyn Diffib ar y safle? A gofyn i Eglwys Dewi Sant a fydde nhw yn fodlon i'r Diffib newid lleoliad?
Cynnig: Carys Roberts Eilio: Arfon Hughes

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com

CYNGOR TREF NEFYN

<u>COFNODION</u> Cyfarfod Hybrid y Cyngor, Nos Fawrth 16/09/2025 am 7yh

11. **Cynnal a chadw'r cae aml ddefnydd –** Clerc
Trafodwyd dylid gofyn i'r Clerc gysylltu efo – Clwb Rygbi Pwllheli, Canolfan Hamdden Pwllheli ac Ysgol Botwnnog i ofyn pwy sydd yn gwneud y gwaith cynnal a chadw ar eu caeau nhw, a rhoi'r mater ar agenda mis nesa'.

12. **Cwn ar draeth Nefyn –** Gruffydd Williams
Trafodwyd y dylai gael ei roi ar agenda cyfarfod mis nesa'.

13. **Gohebiaeth a Dderbyniwyd**
    1. **Pwyllgor Canolfan Nefyn –** cais am gynrychiolaeth gan CTN.
    Cynigwyd enw Gruffydd Griffiths gan yr aelodau, a derbyniodd Gruffydd. Cynigwyd enw Gruffydd Williams fel ail aelod, a derbyniodd Gruffydd.
    2. **Prosiect 'Perthyn' – Sian Parri**
    Mae Sian wedi gofyn i Catrin Roberts a Rhys Llewelyn fod yn gynrychiolwyr Cyngor Tref Nefyn ar y Prosiect Perthyn**,** derbyniodd y ddau aelod a chytunodd aelodau'r Cyngor i hynny.

14. **Ceisiadau Cynllunio**
Dim.

15. **Ceisiadau Diweddarach**
    1. **C25/0620/42/DT –** The Lodge, Lôn Bodlondeb, Morfa Nefyn – cais i ddiwygio'r to i gynnwys codi uchder y brig, ffenestr gromen newydd ac ychwanegiad o ystafell olchi, sied a storfa feics
    Penderfyniad: Holi'r clerc ymhellach ynglyn ac uchder y tô ar y datblygiad hwn
    Cynnig: Mared Llywelyn Williams Eilio: Catrin Roberts

16. **Taliadau i'w gwneud**

**Taliadau mis Awst:**
Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:

- Cyflog y Clerc - £1496.18 (taliad Bacs)
- Taliad y Cadeirydd – Taliad cyntaf - £300.00
- Bacstal – gwasanaeth cyflogau - £173.28
- Canolfan Nefyn – Penwythnos Porthi'r Penwaig - £50.00
- D M Parry – taliad cyntaf mynwent Edern, Fron a Penniel a pumed taliad mynwent Morfa Nefyn - £1055.00
- Clwb Peldroed Nefyn Unedig – bwrdd noddi 2025-2026 - £80.00

- HMRC – PAYE Mis - £396.05
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Gorffennaf - £144.67
- Cyngor Gwynedd – Gwasanaeth Archwilio Mewnol - cyfrifon 2024-2025 - £360.00
- Contractio G I Owen – diogelu llwybrau Bro Gwylwyr - £1248.00

**Anfonebau wedi eu derbyn i'w talu:**

- Cyflog y Clerc – £1496.18 (taliad Bacs)
- Nefyn Foods Ltd - Rent Siop Siarad - £780.00
- Gruffydd Williams – clo i'r gadair olwyn - £27.98
- John Gwynfor Jones – agor bedd Yvonne Ann Adams - £115.00
- Microsoft 365 – tanysgrifiad blynyddol - £84.99
- McAfee – Anti-virus 2 flynedd - £89.99
- D M Parry – torri mynwentydd - £1495.00
- Cyngor Gwynedd – cytundeb glanhau Llyfrgell Nefyn 25-26 - £2452.32
- Ashley Hughes – offer swyddfa - £27.20
- HMRC – PAYE mis 5 - £471.05
- E.On Next – trydan Llyfrgell mis Awst - £138.03
- Ffi Diogelu Data - £52.00
- G Williams Ffensio Cyf – gosod 3 mainc a grwsio 2 fainc - £1411.20

Penderfyniad: Talu pob anfoneb.
Cynnig: Catrin Roberts        Eilio: Gruffudd Griffiths

**17. Taliadau wedi eu derbyn**

- Cyngor Gwynedd – Praesept - £47500.00
- Ifan Hughes – angladd Aneurin Owen Charles Roberts - £690.00

Clerc: Pat Humphreys
Cae'r Wydden, Lôn Isaf, Morfa Nefyn, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6BS.
• Ebost: clerccyngortrefnefyn@gmail.com